

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Ionawr 2019



Blwyddyn Newydd Dda. Daeth Tymor y Nadolig yn Ysgol Eifionydd i ben gyda phrysurdeb a bwrlwm nifer o weithgareddau.

Canu Carolau

Ar b'nawn Iau oer y 13eg o Ragfyr aeth criw o ddisgyblion i ddi-ddanu cwsmeriaid Tesco gyda chaneuon Nadoligaidd ac ar b'nawn Gwener 14eg aethant i Gartref Henoed Bodawen, Porthmadog. Dan arweiniad Miss Llio Dudley bu'r disgyblion yn canu carolau i'r trigolion ac roedd pob un ohonynt wedi mwynhau eu hunain. Da iawn chi.



Cyngerdd Nadolig

Cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yn Eglwys Sant Ioan nos Fawrth, Rhagfyr 18fed. Cafwyd nifer o eitemau amrywiol gan gynnwys unigolion, deuawdau, parti merched, parti bechgyn a chôr llawn. Cafwyd cyngerdd gwerth chweil a'r cyfan yn dyst i waith Miss Llio Dudley, athrawes Gerdd a'r disgyblion fu'n cymryd rhan. Ar ddiwedd y cyngerdd diolchodd Mr. Dewi Bowen i bawb oedd wedi cymryd rhan yn y cyngerdd ac i'r holl staff a disgyblion fu'n trefnu a chynorthwyo gyda'r cyngerdd. Cyflwynodd Mr. Bowen anrheg i Miss Dudley am ei gwaith clodwiw.

Diwrnod Siwper Nadolig a Ras Noddedig Sion Corn

Ar ddiwrnod olaf y tymor cafodd disgyblion a staff yr ysgol gyfle i ymuno yn hwyl yr Wyl wrth wisgo siwper Nadoligaidd neu eu dillad eu hunain a bu hefyd Ras Noddedig Sion Corn oddi amgylch yr ysgol i'r disgyblion.



Cystadleuaeth Talent Eifionydd

Ar ddiwrnod olaf y tymor bu nifer o ddisgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth Talent Eifionydd. Bu llawer o eitemau gwefreiddiol gan gynnwys Gymnasteg, Cyfeiliant Piano, Canu a Hud a Lledrith. Diolch i Lowri Gwynne a Jay Worley, sêr Rownd a Rownd am feirniadu'r gystadleuaeth. Yr enillwyr oedd:

Lowri Glain Roberts a Nel Dafydd Evans 1af – Canu Deuawd.

Alaw Jones 2il – Chwarae'r Piano

Huw cyn Jones - 3ydd – Unawd Clarinet





Gwaith Maes TGAU Daeryddiaeth Blwyddyn 11

Mae gwaith maes yn rhan hanfodol a gorfodol wrth ymgymryd â Daeryddiaeth TGAU, ac o ganlyniad, doedd eleni yn ddim gwahanol! Testunau eleni oedd 'Arolwg Ansoddol' a'r 'Cysyniad o le' a daeth Mr. Gareth Huws, Parc Cenedlaethol Eryri yn ail bar o ddwylo gwybodus i'n harwain ar y dasg. Manteisiom ar fro Eryri eleni gan greu Arolwg Ansoddol o Fetws y Coed. Rhaid oedd dadansoddi'r anheddiad gan edrych ar ei defnydd tir, llif cerddwyr trwy'r pentref, a samplu ardaloedd penodol i gyd-greu arolwg o Fetws y Coed mesul is-ardal. Daeth ein tystiolaeth ffotograffig yn erfyn amhrisiadwy yn ddiweddarach. Roedd Blwyddyn 11 yn eu helfen yn ymateb yn wych i gyfarwyddiadau ac arweiniad gan ddangos blaengaredd annibynnol hefyd. Gyda'r data cynradd yn ei le, daeth Hydref 3ydd i ben â phawb yn barod i lunio'u graffiau, dadansoddiadau a gwerthusiadau ar yr holl broses ddysgu.

Ar lechweddau Eryri y troediasom wythnos yn ddiweddarach gan ddilyn taith fer o'r Afon Glaslyn; y naill safle yn yr ucheldir garw gyda'i ffrwd gul, serth a'r cyferbyniad amlwg yn is i lawr yn y dyffryn. Diwrnod o antur, yn heulwen cynnes yr Hydref ac 16 disgybl hapus (gyda 2 o'n ffrindiau o Ysgol Ardudwy) yn mesur

lled, dyfnder, a hyd gwely'r afon gydag offer pwrpasol, mesur maint llwyth yr afon, mesur cyflymder y llif (daeth bisgedi'r ci yn handi iawn, yn arnofio cyn rhuthro neu suddo yn erbyn y cloc). Profodd yr awr olaf ar lannau'r Glaslyn i fod yn un unigryw iawn! Wrth fesur lled yr afon ger Cwm Dyli rhaid oedd rhuthro i'r glannau ar fyrder pan sylweddolwyd bod y piblinau yn arllwys eu galwyni o'r llyn uchaf, a ninnau wrthi'n brysur yn casglu'r data angenrheidiol. Roedd rhai ohonom yn wlypach na fwriadwyd ar ddiwedd y dydd. Pob dymuniad da i'r criw pan ddaw'r arholiadau TGAU i'w herio. Adolygu trylwyr, a bydd popeth yn dda, ...gobeithio.



Dyma enillwyr cystadleuaeth Bowldro Meirion Dwyfor 5x60 a fu yn ddiweddar - Freya Foster, Carys Preedy, Elin Evens, Jack Sorsby, Connor Sorsby a Tomos Eardley. Da iawn chi.

